TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BPEC Systemau Storio Dwr Poeth Domestig (Heb eu hawyru)



**Yn gryno**

Nod y cwrs hwn yw cynorthwyo plymwyr a pheirianwyr gwresogi sydd eisiau gosod Systemau Storio Dwr Poeth Domestig Wedi eu Hawyru a Heb eu Hwyru i gydymffurfio â'r Safonau a Rheoliadau Adeiladu priodol.

Mae BPEC yn ddarparwr arbenigol o asesiadau, cyrsiau hyfforddi, deunyddiau dysgu a chymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiannau.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un dros 19 oed, sy'n byw yng Nghymru ac mewn cyflogaeth. Nid yw'r terfyn cyflog o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.

... peirianwyr plymio a gwresogi sydd eisiau gosod Systemau Storio Dwr Poeth Domestig, a

bydd yn dangos eu cymhwysedd fel y gallant naill ai ymuno â Chynllun Personau Cymwys, sy'n caniatáu gosodiadau wedi'u hunan-ardystio, neu hysbysu'r adran Rheoli Adeiladu leol cyn dechrau ar y gwaith.

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cwrs hynod gynhwysfawr hwn yn dechrau gyda hyfforddiant dwys yn y pedwar modiwl, cyn cwblhau tri asesiad, gan gynnwys un asesiad ymarferol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lwyddo yn y tri asesiad er mwyn cyflawni'r dystysgrif BPEC mewn Systemau Storio Dwr Poeth Domestig a'r cerdyn cymhwysedd.

Y pedwar modiwl hyfforddi yw:

Systemau wedi'u Hawyru a heb eu Hawyru a'u hegwyddorion gweithredu
Dylunio a gosod
Cynnal a Chadw
Cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu eraill

Fel arfer, mae asesiadau'n cynnwys cyfuniad o arholiadau ymarferol a damcaniaethol.

**Gofynion Mynediad**

Rhaid i ymgeiswyr feddu ar gymhwyster crefft a gydnabyddir (e.e. NVQ/SNVQ Lefel 2 neu 3 mewn Plymio a Gwresogi neu Wresogi Domestig) NEU fod yn gweithio tuag at gymhwyster o'r fath NEU fod â thystiolaeth o nifer o flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant plymio neu wresogi.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae tystysgrif yn ddilys am 5 mlynedd fel arfer. Mae ymgeiswyr yn gymwys am ailasesiad o fewn 12 mis ar ôl i'r dystysgrif ddod i ben. Rhaid cyflwyno tystysgrifau blaenorol i'r ganolfan asesu fel prawf o feddu ar y cymhwyster gwreiddiol.

Os ydych yn penderfynu peidio ymuno â chynllun Personau Cymwys, bydd angen ichi roi gwybod i'r adran Rheoli Adeiladu leol.

Os caiff ei gwblhau y tu allan i Gyfrif Dysgu Personol, cost y cwrs hwn fydd £375 yr ymgeisydd.